

Gwybodaeth ychwanegol i'r ddogfen ymgynghoriad statudol

Gweler isod gwybodaeth ychwanegol y dylid ei ddarllen ar y cyd â'r wybodaeth a geir yn y ddogfen ymgynghori a ddsbarthwyd eisoes.

1. Cyllid cyfalaf

Amcangyfrif o gost y datblygiad newydd yw £12.4m a fydd yn cael ei ariannu ar y cyd gan £6.2m o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a £6.2m gan Gyngor Gwynedd.

2. Trosglwyddiad posibl neu waredu tir a defnydd derbyniadau

Rhagwelir y bydd safle presennol Ysgol Hafod Lon yn cael ei waredu, a bydd unrhyw dderbyniad ariannol yn mynd tuag at Gynllun Rheoli Asedau y Cyngor. Dyma'r cynllun sy'n cyllido cyfraniad y Cyngor tuag at brosiectau Ysgolion 21ain Ganrif.

3. Defnyddio derbyniadau unrhyw arbedion costau refeniw cylchol

Bydd unrhyw arbedion refeniw sy'n deillio os weithredir ar y cynnig yn trosglwyddo i gyllideb yr Adran Addysg, yn unol â'r polisi ôl-ddefnydd a fabwysiadwyd gan Bwrdd Cyngor Gwynedd ar 15 Medi 2009.

4. Nifer y disgyblion yn Uned Tŷ Aran yn ystod y 5 mlynedd diwethaf

Blwyddyn	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14
Disgyblion	5	5	3	3	3

5. Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig a mesurau ar gyfer rheoli risg

Risg	Adrawiad bosib	Rheoli'r risg
Cyfraniad cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru ddim ar gael ar gyfer y datblygiad newydd	Methu parhau gyda'r prosiect	Datblygu achos busnes cadarn er mwyn sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru
Oedi ym mhenderfyniadau ar yr Achos Fusnes a'r Broses Statudol	Oedi yn cyflawni y prosiect	Sicrhau bod achosion busnes yn cael eu cyflwyno i Llywodraeth Cymru yn unol â'r amserlen gytunwyd
	Oedi mewn hawlio arian cyfalaf	Sicrhau bod prosesau statudol yn cael eu gweithredu yn gywir ac yn amserol
	Canolfan newydd ddim yn agored ar amser	Sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn eu lle i gyflawni ar amser

Methiant i gael caniatâd cynllunio	Oedi neu angen i symud i safle arall	Gwaith cynnar gydag adran gynllunio
Tendrau yn uwch na'r gyllideb	Angen am gyllid ychwanegol neu 'value engineering'	Dylunio llawn a chostio cyn tendro. Dylunio gyda photensial 'value engineering' mewn golwg
Gor-redeg mewn costau adeiladu	Angen am gyllid ychwanegol	Cynllunio manwl a dylunio llawn. Monitro yn agos
Cwblhau hwyr	Hwyr yn agor ysgol newydd	Monitro'r rhaglen yn agos
Olion archeolegol ar y safle	Costau ychwanegol / oedi	Astudiaeth ddesg wedi nodi tebygolrwydd isel o olion. Monitro safle yn ystod y gwaith daearol.
Gor-ddisgwyliadau defnyddwyr	Angen i dorri yn ôl ar y prosiect yn ystod y cam costio manwl	Rheoli disgwyliadau yn gynnar yn y camau dylunio
'scope creep' prosiect	Costau yn gor-redeg	Monitro llym a chyfeirio yn ôl at Briff y Prosiect
Newid yn sefyllfa economaidd y diwydiant adeiladu	Potensial ar gyfer cynnydd sylweddol yng nghostau adeiladu gan fod y diwydiant yn dod allan o ddirwasgiad	Monitro ariannol agos o gamau dylunio a pharatoi ar gyfer 'value engineering' posibl yn y cyfnod tendro